Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 01-03-22 – 7.30pm**

**Cyfarfod yn Neuadd y Pentref**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd), Wendy Williams, John Emlyn Jones, Ceri Leeder, Gwenan Roberts a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Geraint Owen, Arthur Williams, Gwyn Jones, Austin Roberts a John Lloyd Williams |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (01/02/22).

   Cynigwyd cofnodion 01/02/22 yn gywir gan Cyng Wendy ac eiliwyd gan Cyng John Emlyn.

   - Tir ger Topan Bach – angen cysylltu gyda CBSC i weld pwy sydd yn berchen y tir.
   - Angen newid iaith yn y cofnodion.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Toiledau'r Pentref:**

     Y Clerc i drafod gyda Sian, Clerc Cyngor Cymuned Caerhun i gael cyngor.

   - **Mynwent yr Eglwys/Cyngor:**

     Dim diweddariad gan Cyng Ceri – heb dderbyn dyfynbrisiau eto.
     Cyng John Emlyn wedi gyrru copi o'r asesiad risg i'r holl gynghorwyr – eitem agenda mis nesaf.
     Keith Webber wedi torri'r goeden yn y fynwent, angen talu'r anfoneb.

- **Baner y Pentref:**

  Y Clerc i lunio rhestr o ddyddiadau y dylid codi'r faner. Cyng John Emlyn i drafod gyda Paul. Cyng Ceri i drafod cyflwr y faner newydd gyda Paul.

- **Jiwbilî Platinwm y Frenhines:**

  Y Clerc i anfon ateb o ddiolch i John Worsley sydd wedi cyflwyno rhestr o ddigwyddiadau ar gyfer Jiwbilî Platinwm y Frenhines a rhoi gwybod iddo na fydd y Cyngor Cymuned yn trefnu digwyddiad.

- **Awdit 20/21:**

  Dywedodd y Clerc mai ei phrif anhawster wrth goladu'r gwaith papur oedd peidio â chael argraffydd. Roedd y Cynghorwyr eisoes wedi rhoi caniatâd i'r Clerc brynu argraffydd. Dywedodd y Clerc y byddai'n chwilio am argraffydd a oedd yn cyrraedd y gofynion.

6. **CYNLLUNIO**

Dim.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £6,644.34
Angladdau - £119.40
Cadw - £2,078.36

**Taliadau Ar-lein:**
**Cyfredol:**
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- HMRC (Ionawr/Chwefror/Mawrth) - £150.00
- Eisteddfod Gadeiriol Llanrwst **-** £50.00

**Angladdau:**
Dim.

Gofynnodd y Clerc i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gael mynediad i'r system bancio ar-lein er tryloywder. Cytunodd y ddau.

8. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: CBSC – Carol Metcalfe: Eisteddfod Gadeiriol Llanrwst – rhodd ariannol:**

  Cynigiodd Cyng John Emlyn £50.00, Cyng Gwenan yn eilio. Holl Gynghorwyr yn cytuno.

- **E-Bost: CBSC - Hyffordiant Un Llais Cymru:**

  Cynghorwyr i yrru rhestr o gyrsiau yr hoffent fynychu i'r Clerc.

- **E-Bost: Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen – llythyr apêl:**

  Penderfynwyd peidio a rhoi rhodd ariannol y tro hwn.

- **E-Bost: Un Llais Cymru - Cynllun Prentisiaethau Llywodraeth Cymru yn agor ar 28 Mawrth:**

  Er Gwybodaeth. Cyng Ceri wedi ei ychwanegu i'r dudalen Facebook.

- **E-Bost: CBSC - Partïon Stryd ar y Jiwbilî:**

  Er Gwybodaeth.

- **E-Bost: Un Llais Cymru - Ymweliadau safle ar draws y Gogledd:**

  Cyng John Emlyn i gysylltu a threfnu cyfarfod ar ei ran ef a Ceri gyda'r swyddog.

- **E-Bost: Llywodraeth Cymru - Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2022:**

  Y Clerc i ysgrifennu i gadarnhau a yw Cynghorwyr am dderbyn neu beidio £150 tuag at dreuliau'r Cynghorydd. Hefyd, mae angen trafodaeth bellach ynghylch derbyn £30 o bunnoedd y cyfarfod.

- **E-Bost: Llywdodraeth Cymru – Cylchlythyr:**

  Er Gwybodaeth.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Troeon Henblas – dŵr yn casglu eto. Draeniau ddi yn y lle iawn. Gulley ar ddiwedd ffordd Gyffylog yn llawn.
- Sian Roberts, yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cynnig arbenigedd mewn perthynas â grantiau ac ati am awr unwaith y mis yn neuadd y pentref.
- Mae llinell wifi a llinell ffibr bellach yn y neuadd gymunedol, dylai fod yn gweithio ar ôl 07/03/22.
- Tyllau yn y ffordd o'r ysgol tuag at Hen Efail ar y tro.
- Llythyr yn diolch i Paul Williams a Paul Roberts am eu cymorth gyda'r goeden Nadolig gymunedol.

10. **DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

05/04/22
03/05/22
07/06/22
05/07/22
06/09/22
04/10/22
01/11/22
06/12/22

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 o'r gloch.